

Digimap for Schools

Defnyddio Daearyddiaeth fel ffynhonnell ddelweddau

Alan Parkinson

Adnodd addysgu Daearyddiaeth Dalen Ffeithiau



Dyma un o gyfres o adnoddau dysgu i'w defnyddio gyda Digimap for Schools. Cewch ragor o wybodaeth am y gwasanaeth hwn yn <http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Adnoddau Daeryddiaeth *Digimap for Schools*

Canllaw ar gyfer athrawon yw'r adnoddau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth i'r dosbarth cyfan neu fyfyrwyr unigol yn uniongyrchol fel y bo'n briodol. Gallwch addasu'r lluo o syniadau sydd ym mhob gweithgaredd fel eu bod yn gweddu eich dosbarth a'ch disgyblion. Mae rhai adnoddau'n cynnwys dalenni gwaith i'w rhoi i'r disgyblion yn uniongyrchol.

Teitl: Defnyddio *Geograph* fel ffynhonnell ddelweddau

Cyflwyniad

Gwefan sy'n cynnwys dros 3.7 miliwn o ffotograffau â chyfeiriadau daeryddol o Ynysydd Prydain. Safonir yr holl ffotograffau cyn eu lanlwytho a gellir eu defnyddio'n rhad ac am ddim at ddibenion addysgol (gyda thrwydded Creative Commons). Mae tagiau ar y ffotograffau hefyd, gan olygu bod modd chwilio am dermau daeryddol yn gyflym ac yn rhwydd.

Mae dwy fersiwn o *Geograph*:

- Mae'r fersiwn ar gyfer ysgolion yn <http://schools.geograph.org.uk>

Gellir mynd ar y wefan yn uniongyrchol neu drwy wefan addysgol yr Arolwg Ordnans <http://mapzone.ordnancesurvey.co.uk/>. Mae'r wefan hon union yr un fath â'r wefan gyhoeddus, ond mae'r dulliau llywio wedi'u haildrefnu ac nid oes modd mynd ar y fforymau. Argymhellir i ysgolion ddefnyddio'r wefan hon, ac mae'r holl wybodaeth yn yr adnodd hwn yn gysylltiedig â'r fersiwn hon o'r wefan.

The screenshot shows the Geograph website interface. At the top, there is a navigation bar with the Geograph logo, a search bar, and links for Home, Map, Submit, Stats, and Help. Below this, the main content area is divided into three sections: 'Photo Map' with a map of the British Isles, 'Photograph of the day' showing a railway bridge, and a 'Welcome' message with a 'Find out more...' button and a large number '3,646,810 photographs'. At the bottom, there are buttons for 'Are you a teacher/student?' and 'Site Guide'.

- Mae'r wefan gyhoeddus yn <http://www.geograph.org.uk/>

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Crynodeb o hanes *Geograph*

Lansiwyd *Geograph* ym mis Mawrth 2005 gyda'r syniad gwreiddiol o gael un ffotograff cynrychiadol ar gyfer pob km sgwâr o grid yr Arolwg Ordnans (mae 330,184 i gyd). Datblygwyd y wefan gan dîm bach o dri (Gary Rogers, Paul Dixon a Barry Hunter) oedd yn gwirfoddoli eu hamser. Daliodd y wefan ddychymyg y cyhoedd ar-lein a chafwyd llif o gyfraniadau ganddynt. Roedd miliwn o ddelweddau ar y wefan erbyn mis Hydref 2008 a dwy filiwn erbyn mis Awst 2010.

Nid oes gan rai sgwariau ar y grid ffotograffau o hyd (lleoedd anghysbell neu anhygyrch yw'r rhain gan fwyaf) tra bod gan sgwariau eraill lawer fwy nag un ffotograff i'w cynrychioli. '*Geograph*' yw'r enw ar gyfer y ffotograff cyntaf a gyflwynir ar gyfer pob sgwâr ac, yn wreiddiol, roedd casglu'r rhain yn ffordd o ysgogi pobl i lanlwytho delweddau.

Mae tua 12,000 o bobl wedi cyfrannu ffotograffau ac mae 13 o luniau o bob sgwâr ar gyfartaledd. Lluniau o'r lleoliad yw'r ffotograffau a rhoi ymdeimlad o'r lle yw'r nod; gall pobl fod yn y ffotograffau, ond nid nhw yw'r pynciau o dan sylw yn y lluniau.

Yn ogystal â chyfrannu ffotograffau, gall defnyddwyr baratoi ffotograffau i greu erthyglau. Er enghraifft, mae erthygl sy'n dangos yr holl flychau post aur a beintiwyd i ddathlu'r medalau Olympaidd.

Mae *Geograph* yn parhau i gynnig pwyntiau ar gyfer lanlwytho ffotograffau ac mae amrywiaeth o hysbysebion i annog pobl i gymryd rhan. Mae'n parhau i fod am ddim i'w ddefnyddio ac nid yw'n cynnwys hysbysebion. Mae'r Arolwg Ordnans yn noddî'r wefan ac yn darparu'r map gwaelodol.

Archifir y wefan gan y Llyfrgell Brydeinig.


Defnyddio *Geograph* gyda *Digimap for Schools*

1 Hawlfraint

Mae gan athrawon rwydd hynt i ddefnyddio pob ffotograff at ddiben addysgol. Fodd bynnag, mae'n ofynnol bod ffotograffwyr yn cael eu cydnabod, a gofynnir i athrawon roi esiampl dda i'w myfyrwyr drwy ofalu eu bod yn gwneud hyn. Y cyfan sydd ei angen i gydnabod ffotograff yw rhoi enw'r ffotograffydd ac egluro wrth y darlennydd ble gall gael gwybod mwy am y ddelwedd os ydynt am ei defnyddio eu hunain. Bydd y canlynol yn ddigonol gan fod modd chwilio am enw ffotograffwyr ar y wefan.

© Hawlfraint Helen Smith, www.geograph.org.uk

2 Dod o hyd i ffotograff yn *Geograph*

Chwiliwch am y lle sydd o ddiddordeb i chi a dewiswch declyn cyfeirio'r grid . Cliciwch ar y map yn y lleoliad o dan sylw a bydd cyfeirnod y grid yn cael ei roi. Amlygwch y testun hwn a chwiliwch y botwm ar y dde i gopïo cyfeirnod y grid. Gallwch nawr ludo'r testun hwn yn y blwch chwilio yn *Geograph*. Bydd y wefan yn cynnig dewisiadau i chi ar gyfer archwilio ffotograffau o'r lleoliad hwn.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Os hoffech chwilio'n fwy cyffredinol, y ffordd symlaf yw rhoi **enw lle** yn y blwch chwilio yn y gornel uchaf ar y dde. Bydd pob man perthnasol wedyn yn cael eu rhestru gan ddechrau gyda'r agosaf o ran pellter. Defnyddiwch 'refine search' (mireinio) i chwilio'n fanylach neu ychwanegu geiriau allweddol, er enghraifft, pont. Bydd hyn yn eich galluogi i ddod o hyd i bontydd yn yr ardal.

Er mwyn chwilio am **nodwedd ddaeryddol** yn hytrach na lle, gadewch y blwch yn wag a chliciwch y botwm 'Search' (Chwilio) wrth ei ymyl. Nawr dewiswch 'Advanced Search' (Chwilio'n Fanylach) ac ychwanegwch enw'r nodwedd ym mlwch y geiriau allweddol. Bydd y gair 'Bridge' (Pont) yn rhoi tua 250,000 o ganlyniadau, felly hwyrach y byddai'n werth bod yn fanylach. Chwiliwch yn fanylach drwy:

- Ychwanegu cyfeirnod grid a gofyn am ganlyniadau o fewn radiws.
- A/neu dewiswch ba wlad yr hoffech ei gweld.
- A/neu byddwch yn fwy penodol am y math o bont sydd o ddiddordeb i chi.
- Wrth chwilio am dagiau, teipiwch awgrym fel for example, 'pyn-feirch' a dewiswch.

Gallwch arddangos hyd at 50 o ddelweddau wrth rollo i lawr. Gellir arddangos y rhain fel crynoluniau, sioe sleidiau neu ar fap.

3 Copïo ffotograff ar ffeil

De-gliciwch y llun a dewiswch 'Save picture as' (Cadw'r llun fel). Bydd y ddelwedd yn cael cyfeirnod yn syth. Argymhellir i chi gadw'r rhif chwe digid ar ddechrau'r cyfeirnod hwn yn rhan o enw eich ffeil. (Os bydd angen i chi ddod o hyd i'r ffotograff hwn eto yn *Geograph*, y cyfan fydd angen i chi ei wneud yw teipio'r rhif hwn ym mlwch chwilio'r wefan). Dylech ychwanegu enw'r ffotograff ydyd hefyd er mwyn i chi allu cydnabod ei hawlfraint fel bod enw eich ffeil yn edrych rhywbeth fel hyn: Dosbarth4daear456789_HelenSmith.

4 Ychwanegu ffotograff yn *Digimap for Schools*

Agorwch y bar anodi a dewiswch y teclyn 'add an image' (ychwanegu delwedd).



Cliciwch ar y map, a bydd blwch testun yn agor;


Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>



Os ydych wedi cadw'r ddelwedd mewn ffeil, dewiswch 'browse' (pori) a theipiwch enw lleoliad y ffeil.

Os hoffech ychwanegu delwedd o *Geograph* heb ei gadw mewn lleoliad yn gyntaf, chwiliwch am y ddelwedd ar wefan *Geograph* a chliciwch arni. Bydd y ddelwedd nawr yn ehangu. De-gliciwch ar y ddelwedd a dewiswch 'properties' (priedweddau) a bydd blwch dialog yn agor.



Amlygwch y cyfeiriad (fel uchod) a gwasgwch 'Ctrl' ac 'c', i gopïo'r ddolen.

Nawr ewch yn ôl i *Digimap for Schools* a chliciwch 'browse' (pori) ym mlwch lleoliad ffeil y ddelwedd a bydd blwch dialog yn agor mewn cysylltiad â'ch cyfrifiadur eich hun. Gludwch leoliad y ddelwedd yn y bar 'File name' (Enw ffeil) a chliciwch 'open' (agor).

Wrth ddychwelyd i *Digimap for Schools*, bydd lleoliad y ddelwedd wedi'i gofnodi erbyn hyn, felly dewiswch 'Upload' (Lanlwytho).

Cadwch eich map i ddal gafael ar leoliadau eich delwedd.

Symud ffotograffau


Dewiswch y saeth bedwar pen a chliciwch ar y ffotograff. Byddwch yn gallu ei symud o gwmpas ar y map. I newid lleoliad y pin, cliciwch ar y pin a bydd y ffotograff a'r pin yn symud. Dad-ddewiswch y saeth pan fyddwch yn fodlon ar y lleoliad newydd.

Digimap for Schools

<http://digimapforschools.edina.ac.uk>

Labelu ffotograffau

Os oes llawer o ffotograffau ar fap, hwyrach mai peidio â gorchuddio'r map â labeli fyddai orau, ond gall rhoi llythyren neu rif arnynt fod o ddefnydd er mwyn eu cysylltu â gwybodaeth mewn dogfen arall.

Yn y bar anodiadau, dewiswch liw, maint ac arddull y testun cyn dewis y teclyn  a chlicio ar y pin coch. Teipiwch eich label. (Bydd hwn yn aros gyda'r pin yn hytrach na'r ffotograff).

Cofiwch gydnabod y ffotograffydd os ydych yn creu adnoddau i'w defnyddio yn yr ystafell ddsbarth.

Gweithgaredd

Crëwch fap A3 o ardal eich ysgol. Dewch o hyd i ffotograffau ar *Geograph* a'u gludo ar ddalen waith ar wahân. Gofynnwch i'ch myfyrwyr feddwl am ble gallai'r ffotograffau fod wedi'u tynnu.

Trafodwch ba nodweddion oedd fwyaf o gymorth yn y broses hon a sut gall y myfyrwyr weld i ba gyfeiriad oedd y ffotograffydd yn edrych a pha amser o'r flwyddyn y tynnwyd y llun.

Bydd hyn yn gwella eu gallu i gysylltu mapiau â'r byd go iawn.

Mynd gam ymhellach

- Gofynnwch i'r myfyrwyr greu a lanlwytho casgliad o ffotograffau o'r ardal o gwmpas eich ysgol, Bydd y Llyfrgell Brydeinig yn eu harchifo er budd cenedlaethau'r dyfodol.
- Ewch i'r wefan gyhoeddus yn www.geograph.org.uk/ a darllenwch fforwm drafod yr athrawon. Croesewir eich cyfraniadau'n fawr.

Dolenni ar y we

- Ewch i <http://schools.geograph.org.uk/teachers/> i gael mwy o syniadau am ddefnyddio *Geograph*.
- Ewch i <http://www.geograph.org.uk/article/Ordnance-Survey-Map-Symbols>

© EDINA ym Mhrifysgol Caeredin 2013

Mae'r gwaith hwn o dan Drwydded Anfasnachol *Creative Commons Attribution*

